




# Buddion Teithio BIP Caerdydd a'r Fro

Mae BIP Caerdydd a’r Fro yn darparu amrywiaeth o gynlluniau i helpu cydweithwyr i arbed arian ar gostau teithio hamdden neu yn y gwaith. Mae’r rhain yn cynnwys: Cynllun Seiclo i'r Gwaith, Cynllun Tocyn Bws a Chynllun Rhannu Ceir. Gall cydweithwyr hefyd fanteisio ar ostyngiadau gwych ar wyliau yn y DU a thramor, yn ogystal â chyfraddau arian cyfred ffafriol yn Swyddfa'r Post, yn y Cyntedd yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

## Cynllun Seiclo i’r Gwaith



Mae Seiclo i'r Gwaith yn gynllun buddion gweithwyr a gefnogir gan y llywodraeth sy'n galluogi cydweithwyr i arbed arian a lledaenu cost beic newydd ar gyfer cymudo.

Mae'r cynllun yn rhedeg drwy'r flwyddyn fel y gall cydweithwyr archebu beic ar unrhyw adeg. Cyn belled â bod yr aelod o staff yn gyflogai yn BIP Caerdydd a'r Fro (ac ar ein cyflogres), ac nad yw'r didyniadau yn mynd â'r aelod o staff o dan yr isafswm cyflog, yna byddent yn gallu cymryd rhan.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun Seiclo i'r Gwaith, cliciwch yma.

## Cynllun Rhannu Ceir




Mae rhannu ceir yn ffordd wych o leddfu’r straen a achosir gan deithio a lleihau tagfeydd ar y ffyrdd a pharcio.

Mewn cydweithrediad â Liftshare, mae’r Tîm Trafnidiaeth a Theithio Cynaliadwy yn cynnal gwasanaeth sy’n galluogi holl weithwyr y bwrdd iechyd i gofnodi eu taith i’r gwaith a chysylltu ag eraill sy’n teithio i’r un cyfeiriad, fel y gallwch drefnu teithio gyda’ch gilydd a rhannu’r costau.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i Borth Liftshare BIP Caerdydd a’r Fro yma.

## Cynllun Tocyn Bws



Mae BIP Caerdydd a’r Fro yn parhau i weithredu cynllun sy’n cynorthwyo gweithwyr y BIP i brynu tocynnau ‘To Go’ neu ‘To Go Plus’ blynyddol ar gyfer teithio i’r gwaith, a theithio adref. Mae’r cynllun hwn yn galluogi gweithwyr i gael tocyn blynyddol a thalu drwy gyflogres y BIP, ac mae’n cael ei redeg ar y cyd â Bws Caerdydd. Bydd cydweithwyr yn cael cerdyn iff a gallwch dalu am y tocyn trwy randaliadau wythnosol neu fisol sy’n cael eu didynnu ar gynllun y BIP.

I gael rhagor o wybodaeth am y cynllun, cysylltwch â’r Adran Trafnidiaeth a Theithio Cynaliadwy drwy ffonio 029 2183 6224 neu 029 2183 622.

## Cyfraddau arian cyfred ffafriol



Mae Arian Swyddfa'r Post yn cynnig cyfraddau arian cyfred ffafriol ar gyfer cydweithwyr BIPCAF yn Swyddfa'r Post yng Nghyntedd Ysbyty Athrofaol Cymru. Bydd gwario £250 neu fwy ar Ewros, doleri’r UD neu'r Cerdyn Arian Teithio yn eich galluogi i fanteisio ar gyfradd arbennig ar gyfer cydweithwyr yn y GIG.

Cyflwynwch eich cerdyn adnabod GIG i gydweithiwr Swyddfa'r Post cyn archebu eich arian cyfred neu Gerdyn Arian Teithio i sicrhau eich bod yn derbyn eich cyfradd arbennig. Mae angen pasbort neu drwydded yrru'r DU os ydych yn prynu Cerdyn Arian Teithio. Rhoddir Cerdyn Arian Teithio gan First Rate Exchange Services Ltd.

Edrychwch ar arbedion a gostyngiadau Buddion Staff Caerdydd a’r Fro yma neu drwy sganio’r cod QR

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro | Cardiff and Vale University Health Board